Prifysgol Wrecsam
Wrexham University

# Arwyr Gofal Iechyd – ysbrydoli astudiaethau a gyrfaoedd gofal iechyd yn y dyfodol

Amber Percy, Cyd-lynydd Ehangu Mynediad, Prifysgol Wrecsam (mewn partneriaeth â Choleg Cambria)

## Cyd-destun

Yn y flwyddyn academaidd 2024-25, daeth Prifysgol Wrecsam a Choleg Cambria ynghyd i gyflwyno 'Arwyr Gofal Iechyd', menter gydweithredol sy'n canolbwyntio ar yrfaoedd a gynlluniwyd i gynorthwyo cynnydd myfyrwyr a'u hymwybyddiaeth o lwybrau addysg uwch (AU) sy'n gysylltiedig â gofal iechyd. Mae'r fenter, sydd wedi'i hariannu gan Bartneriaeth Ymestyn yn Ehangach Gogledd a Chanolbarth Cymru, yn adlewyrchu ymrwymiad ar y cyd i ehangu mynediad a gwella'r broses bontio i ddysgwyr ar draws y sector addysg drydyddol.

Mae'r digwyddiad hwn wedi'i strwythuro i ymgysylltu â dau grŵp allweddol:

- **Disgyblion ysgol (Blynyddoedd 10 ac 11)** – â'r nod o ysbrydoli a llywio dewisiadau'r dyfodol mewn gyrfaoedd gofal iechyd a gofal cymdeithasol.
- **Myfyrwyr coleg (Lefelau 2 a 3 yn bennaf)** – er mwyn rhoi profiad o astudio ar lefel prifysgol a chymorth ar gyfer cynllunio gyrfa o fewn lleoliad prifysgol.

Mae'r astudiaeth achos yn amlinellu'r arfer da wrth gefnogi'r broses bontio ar draws y dirwedd drydyddol, yn enwedig ym maes gofal iechyd, sy'n wynebu galw cynyddol am sgiliau, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

## Menter Arwyr Gofal Iechyd

Mae Arwyr Gofal Iechyd yn rhaglen ymgysylltu pwnc-benodol, aml-sefydliad sy'n targedu dysgwyr dan 16 a thros 16. Mae'r dull yn fwriadol gydweithredol, gan gynnwys staff academaidd ac allgymorth o Brifysgol Wrecsam a Choleg Cambria, ochr-yn-ochr â thros 25 o arddangoswyr o'r diwydiant a'r sector. Cynhelir y digwyddiad ar gampws Prifysgol Wrecsam, â'r nod o greu amgylchedd dysgu byd go-iawn, ag iddo effaith uchel.



Roedd y digwyddiad cyntaf yn 2024-25 yn cynnwys:

- **Gweithdai rhyngweithiol ymarferol** e.e. efelychiadau meddygol fel gosod twib yn y bibell wynt
- **Darlithoedd blasu** gan gyfadran y brifysgol

- **Stondinau ymgysylltu â chyflogwyr** gan ddarparwyr gofal iechyd lleol a rhanbarthol
- **Cyngor gyrfaoedd un-i-un** gan staff y coleg a'r brifysgol.

Cynlluniwyd y diwrnod i gefnogi dyheadau ar gyfer gyrfaoedd gofal iechyd yn y dyfodol, ar yr un pryd â chwalu'r dirgelwch sy'n perthyn i'r llwybrau i addysg bellach ac uwch, yn enwedig i ddysgwyr o gefndiroedd annhraddodiadol.

Roedd y digwyddiad wedi'i dargedu at ddisgyblion ysgol ym Mlynyddoedd 10 ac 11, myfyrwyr coleg Lefel 2 a 3 yn ogystal â dysgwyr sy'n oedolion ar gyrsiau Mynediad i AU. Rhoddwyd sylw arbennig i anghenion dysgwyr a allai fod y cyntaf yn y teulu i fynychu prifysgol, neu'r rhai sy'n dychwelyd i addysg.

**Effaith a deilliannau**

Croesawodd y digwyddiad Arwyr Gofal Iechyd tua 295 o ddysgwyr, gan gynnwys:

- tua **130 o fyfyrwyr coleg** o Goleg Cambria
- dros **160 o ddisgyblion ysgol** o 8 ysgol, gan gynnwys Ysgol Uwchradd Elfed, Ysgol Uwchradd Llangefni ac Ysgol Upton Hall, ymysg eraill.

> ‘Roedd y cyfuniad o sefyllfaoedd rhyngweithiol a mynediad at gyflogwyr yn berffaith. Doedd y myfyrwyr ddim eisiau gadael.’
> Athro ysgol

Mae'r deilliannau allweddol yn cynnwys:

- Adborth cadarnhaol cryf gan arddangoswyr, addysgwyr a myfyrwyr
- Brwdfrydedd amlwg dros weithgareddau ymgysylltu ymarferol ym maes gofal iechyd
- Gweithio traws-sectoraidd gwell rhwng timau'r brifysgol a'r coleg.

> ‘Roedd y trefniadau a'r croeso'n ardderchog... roedd gwahodd dysgwyr Lefel 2 a 3 yn ogystal â myfyrwyr Mynediad i AU yn wych!’
> Sue Bracegirdle,
> Rheolwr Gweithlu'r Dyfodol,
> Addysg a Gwella Iechyd Cymru

> ‘Fe wnaethon ni fwynhau'r digwyddiad yn fawr iawn... roedd yn ffrwythlon ac rydym eisoes wedi cael diddordeb gan golegau eraill sydd eisiau mynychu'r tro nesaf.’
> Chris White, Staff Academaidd,
> Prifysgol Wrecsam

**Dysgu sefydliadol a chynlluniau ar gyfer y dyfodol**

- Roedd mwy o bobl wedi gwneud cais am le yn nigwyddiad 2024-25 nag oedd lle ar eu cyfer, ac mae colegau ac ysgolion eraill wedi dangos eu diddordeb mewn ymgysylltu yn y dyfodol. Y bwriad yw cynnal Arwyr Gofal Iechyd bob yn ail flwyddyn o hyn ymlaen, wedi'i drefnu gan Brifysgol Wrecsam a Choleg Cambria.
- Bydd adborth o 2024-25 yn ffurfio sail i ddigwyddiadau yn y dyfodol, a fydd yn dilyn model tebyg gyda gweithgareddau ymarferol a chydweithio lleol.
- Mae gan y model botensial i gael ei ehangu i ddisgyblaethau a meysydd partneriaeth eraill.

**Casgliad**

Mae Arwyr Gofal Iechyd yn gwasanaethu fel model o arfer da mewn cefnogaeth gydweithredol ar gyfer pontio, gan ddangos potensial dulliau aml-bartner i ymgysylltu â dysgwyr mewn ffyrdd ymarferol ac effeithiol. Trwy bontio'r bwlch rhwng addysg uwchradd, addysg bellach ac addysg uwch, mae Prifysgol Wrecsam a Choleg Cambria wedi sefydlu platfform deinamig ar gyfer ysbrydoli proffesiynwyr gofal iechyd y dyfodol.

Mae'r fenter hon nid yn unig yn cynorthwyo ag ymwybyddiaeth a dyheadau dysgwyr yn y tymor byr, ond mae hefyd yn cyfrannu at ddatblygu sgiliau rhanbarthol, ehangu cyfranogiad, a chynaliadwyedd hirdymor y sector.

Mae'r astudiaeth achos hon wedi'i chynhyrchu a'i rhannu fel rhan o brosiect QAA Cymru a ariennir gan Medr: Galluogi dysgwyr i symud ymlaen i addysg uwch a gwneud cynnydd.

Gallwch ganfod mwy am y prosiect ar wefan QAA Cymru.

QAA CYMRU

Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research